# Blaenau Ffestiniog

**Pellter:** 3.75km / 2.3 milltir
**Anhawster:** canolig
**Amser cerdded:** 2 awr

Dim Camfeydd, ond mae'r tir yn serth ac anwastad mewn mannau

Caffis a thoiledau yng nghanol y dref

Mae'r llwybr hwn yn dilyn y Llwybr Llechi am gyfnod byr cyn dringo at olygfa ysblennydd o'r Moelwynion. Dychwelyd ar hyd y palmant yn ôl i'r dref.

Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau


1. Wrth adael yr orsaf, ewch i fyny i'r Stryd Fawr a throi i'r dde. (Mae toiledau cyhoeddus ar gael yn y maes parcio mawr y tu ôl i Dŷ Coffi Stiniog). Dilynwch y ffordd am ychydig at Heol Glynllifon a thafarn y Meirion. Trowch i'r dde yn y fan hon a dilyn y ffordd, gan groesi dros y rheilffordd.

2. Pan gyrhaeddwch y groesffordd, trowch i'r dde ac ychydig cyn yr ysgol fe welwch arwydd llwybr troed ar y chwith yn nodi'r llwybr llechi. Dilynwch y llwybr am ychydig, a phan fydd y tarmac yn gwyro i'r dde bydd arwydd llwybr llechi yn eich arwain i'r chwith i lawr allt drwy goetir. Parhewch i ddilyn mynegbyst y llwybr llechi nes i chi gyrraedd y ffordd.

3. Yno, trowch i'r chwith ac yna mynd drwy gât gyda chamfa wrth ei hymyl. Yno, bydd y llwybr llechi'n parhau ar hyd y trac ond dewiswch y llwybr troed i'r chwith sy'n anelu'n serth i fyny'r allt. Mae'r allt fer yn werth yr ymdrech a byddwch yn cael golygfeydd godidog dros y Moelwynion ac argae Stwlan.

4. Dilynwch y llwybr nes i chi gyrraedd trac tarmac. Yno, trowch i'r chwith ond yna cadwch yn syth ymlaen a bydd toriad bychan drwodd yn mynd â chi i'r chwith o wrych. Trowch i'r dde ac yna i'r chwith, ac fe ddewch at y briffordd.

5. Trowch i'r chwith yno, a dilyn y palmant yr holl ffordd yn ôl i ganol y dref ac i'r orsaf.




Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023